

ATODIAD 7

BALANSAU

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithio' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o tua £7.9m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.6% o wariant refeniw gros y Cyngor.
2. Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin â phroblemau a allai godi.
3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, gyda'r cynnydd parhaus mewn galw am wasanaethau gofal, digartrefedd a gwastraff yn golygu fod y risg yn parhau. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol.
4. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 14 Mehefin 2022 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd ar 30 Mehefin 2022, pryd cymeradwywyd trosglwyddo £746k o gronfeydd i gynorthwyo'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol oedd wedi gorwario yn 2021/22 a throsglwyddo £105k i falansau cyffredinol y Cyngor. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad eto erbyn Mai 2023**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma.
5. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (2014), mae **Archwilio Cymru wedi datgan** (ym mharagraff 1.8):

*"Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwyso eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, **ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn**. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."*

6. Ategwyd y neges yma ymhellach gan Archwilio Cymru, sydd wedi adrodd yn Hydref 2020 ar gynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol Cymru o ganlyniad i bandemig Covid-19. Tra mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy Cyngor Gwynedd ymysg chwartil uchaf yr amrediad o awdurdodau lleol Cymru (yn nhermau maint eu cronfeydd defnyddiadwy), **barn Archwilio Cymru yw:**

*“(9) fod rhai cyngorau mewn sefyllfa well o lawer na’i gilydd i ddod drwy her ariannol fel y pandemig. Enghreifftir hyn yn fwyaf amlwg gan y lefelau amrywiol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan gyngorau”, a (18) **bod “lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ar gael i gyngor yn un o ddangosyddion allweddol cydnheredd a chynaliadwyedd ariannol”.***

Mae copi o’r adroddiad i’w gael yma:

[Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19 | Audit Wales](#)

7. Rwy’n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o falansau yn weithred gwbl briodol.
8. Mae balansau’r Cyngor wedi bod yn arf allweddol. Gan bydd y Cyngor â balansau o tua £7.9 miliwn, byddwn wedi cadw’r swmp o’r balansau wrth gefn eto, fel eu bod ar gael i ‘bontio’r’ sefyllfa ariannol os y bydd angen.